OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1722 (Cy.134)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud	- -	*28 Mehefin 2005*
Yn dod i rym	- -	*15 Gorffennaf 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 105, 108, 150 a 152 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**):

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2003" ("*2003 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003(**2**).

Diwygio Rheoliadau Cyfrifon Dysgu Unigol Cymru 2003

2. Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 2003 rhodder y diffiniad a ganlyn lle bynnag y bo'n briodol —

"mae i "partner sifil" yr ystyr a roddir i "*civil partner*" yn adran 1(1) o Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004(**3**)

3. Mewnosodir y geiriau "yn bartner sifil," ar ôl y geiriau "yn briod," yn rheoliad 4(3)(c), (ch) a (d) o Reoliadau 2003.

4. Rhodder y testun a ganlyn yn lle rheoliad 4(5) o Reoliadau 2003 —

"(5) Y pedwerydd amod yw bod y person heb gyrraedd safon cymhwyster addysgol sy'n uwch na Lefel 2 neu ei chyfwerth fel a nodwyd yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol, oni bai bod y person hwnnw yn cael budd-daliadau neu lwfansau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu ei fod yn ddibynnydd person o'r fath."

5. Yn Rheoliadau 2003 mewnosoder yr Atodlen fel a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2000 p.21.
(**2**) O.S. 2003/918 (Cy.119).
(**3**) 2004 p.33.